

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Partneriaethau

Dyddiad: 13 Mawrth, 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 19 MAWRTH 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd 18 Rhagfyr 2014 (copi ynghlwm).

9.30 am – 9.35 am

5 CYDLYNU FFRYDIAU CYLLID CYMUNEDAU (Tudalennau 15 - 22)

Ystyried adroddiad gan Arweinydd Tîm Datblygu Economaidd a Busnes y De (copi ynghlwm) sy'n amlinellu'r sefyllfa gyfredol gyda'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) a chronfeydd eraill sydd ar gael ar gyfer buddion Cymunedol.

9.35 am - 10.10 am

Egwyl Gysur

6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 23 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

10.55 am – 11.05 am

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

11.05 am - 11.15 am

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Ray Bartley (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Ann Davies
Meirick Davies
Richard Davies

Pat Jones
Dewi Owens
Merfyn Parry
Bill Tasker

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Code of Conduct for Members

DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, *(name)*

a *member/co-opted member of
*(*please delete as appropriate)*

Denbighshire County Council

CONFIRM that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

*(See the note below)**

Signed

Date

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 18 Rhagfyr 2014 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Richard Davies, Pat Jones, Dewi Owens, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (SP), Arweinydd Tîm Datblygu Economaidd a Busnes (JD), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (HR), Rheolwr Masnachol Treftadaeth (SW), Rheolwr Gwasanaethau Arbenigol (AP), Cydlynnydd POVA (NT).

Mynychodd y Cynghorydd Eryl Williams (Dirprwy Bennaeth) a'r Cynghorydd Huw LI Jones (Aelod Arweiniol ar gyfer Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Materion Gwledig) ar gyfer eitemau 6 ac 8.

Mynychodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant ar gyfer eitem 5

Mynychodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler fel gwylwr.

Bu Lowri Owain a Gareth Evans, cynrychiolwyr Cadwyn Clwyd, yn bresennol ar gyfer eitem fusnes 8.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ann Davies a Margaret McCarroll.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Meirick Lloyd-Davies a Merfyn Parry gysylltiad personol ag eitem 6 fel aelodau o fwrdd y Cynllun Datblygu Gwledig, a datganodd y Cynghorydd Lloyd-Davies gysylltiad personol ag eitem 9 fel aelod o 'Ffrindiau Castell Bodelwyddan'.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni fu unrhyw faterion bryn, fodd bynnag, â chytundeb y Pwyllgor amrywiodd y Cadeirydd drefn fusnes y rhaglen drwy roi'r eitem ar yr Adroddiad Blynyddol ar

Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych – 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014 cyn yr eitem ar Bartneriaeth y Cynllun Datblygu Gwledig.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 6 Tachwedd, 2014.

Materion yn Codi

Cyfeiriodd y Cynghorydd Merfyn Parry at dudalen 12 o'r cofnodion ynghylch Hylendid a Rheoli Afiechyd lle dylid mynd i'r afael â pheidio cydymffurfio â'r polisi gwisg unffurf. Cododd bryderon ynghylch Ysbyty Glan Clwyd, lle'r oedd yn ymddangos nad oedd contractwyr cynnal a chadw yn darostwng i'r un rheolaeth hylendid â gweithwyr gofal. Danfonwyd ymholiad ynghylch y pryderon hyn ymlaen at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Iau 18 Rhagfyr 2014 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5 PARTNERIAETH CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) ac esboniodd fod y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) 2007–2013 presennol – a oedd wedi ei ymestyn ac a fyddai nawr yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2014 – wedi denu tua £4.8m i ardaloedd gwledig Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Roedd £1.5m o hyn ar gyfer prosiectau Echel 3, wedi'u hanelu at wella safon byw mewn ardaloedd gwledig a hybu arallgyfeirio.

Bu'r CDG presennol yn gofyn am gydweithio agos rhwng cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint drwy'r Grŵp Gweithredu Lleol Cadwyn Clwyd. Byddai'r CDG arfaethedig ar gyfer 2014–2020 yn berthynas weithio dridarn yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd.

Ni chafodd ardal Diserth ei chynnwys yn y CDG yn flaenorol, ond roedd sylwadau llwyddiannus yn golygu y byddai'n cael ei chynnwys yng Nghynllun 2014–2020.

Yn ystod y cyfarfod, dosbarthwyd map o'r Sir yn dangos dosbarthiad arian (a'r rhestr brosiectau) o dan y CDG. Dangosodd bod y gyllideb wedi'i dyrannu'n weddol gyfartal ar draws y sir. Fodd bynnag, gan fod ardal Rhuddlan a Bodolwyddan wedi ymuno â'r CDG presennol yn hwyrach, nid oedd hi wedi elwa o'r Cynllun i'r un graddau â gweddill yr ardal. Byddai mwy o weithredu'n cael ei gynllunio yn ardal Rhuddlan/Bodolwyddan er mwyn iddi elwa o'r CDG newydd maes o law.

Clywodd y Pwyllgor bod Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gyfrifol am ddsbarthu arian grant i fusnesau o dan Cynllun 2007–2013, tra bod Cadwyn Clwyd (y Grŵp Gweithredu Lleol) wedi dyrannu bwrsariaethau.

Roedd nifer o brosiectau twristiaeth a bwyd-amaeth wedi elwa o dan y cynllun presennol, a bu prosiectau cymunedol yn elwa hefyd. Gyda'r Cynllun presennol yn dod i ben rhagamcanwyd tanwariant o 1% i 2%. Roedd hyn yn lefel dderbyniol o danwariant ar gyfer rhaglen o'r fath, a chyfradd llawer is na nifer o gynlluniau datblygu gwledig eraill.

Roedd cyfradd enillion y Cyngor o waith y CDG yn yr ardal yn dangos enillion o £4 ar gyfer pob £1 a gyfrannwyd gan yr Awdurdod mewn prosiectau. Er gwaetha'r ffaith bod y cynllun presennol yn dod i ben ar ddiwedd 2014, nid oedd y CDG 2014-2020 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (LIC) wedi'i gymeradwyo eto. Disgwylwyd y byddai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi ym mis Chwefror 2015, unwaith i LIC dderbyn cadarnhad ynghylch cyllid CDG gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau mi wnaeth yr aelodau arweiniol a'r swyddogion :

- Cyngori bod y CDG presennol wedi cynnwys trawstoriad da o brosiectau ar draws y Sir;
- Ateb cwestiynau ar brosiectau penodol ac ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth am brosiect Amgueddfa Llangollen;
- Esbonio sut y mesurwyd canlyniadau prosiectau a sut y bu gan Swyddfa Archwilio Cymru'r pŵer i berfformio gwiriadau dirybudd ar weinyddiaeth y cynllun yn lleol;
- Amlinellu'r broses ymgynghori a gyflawnwyd fel rhan o baratoi'r CDG newydd ar gyfer 2014-2020;
- Cadarnhau y byddai gan y CDG newydd bwyslais mwy ar fynd i'r afael â thlodi ac adfywiad economaidd, yn enwedig adfywio cymunedau eithriedig/anodd eu cyrraedd. Byddai'r cynllun newydd yn disgwyl i brosiectau a gyflwynwyd am ystyriaeth fod wedi ymchwilio a sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y prosiectau cyn derbyn cyllid CDG. Byddai angen i unrhyw gyllid newydd o dan y CDG newydd ddenu o leiaf 20% mewn arian cyfatebol o ffynonellau eraill;
- Cadarnhau mai Cadwyn Clwyd fyddai'r corff gwneud penderfyniadau unwaith eto ynghylch dyfarnu arian i brosiectau, â chynrychiolydd o bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau yn eistedd ar y corff dyfarnu;
- Cyngori (o gofio bod cyllid llywodraeth leol yn lleihau bob blwyddyn) y dylai aelodau lleol, drwy Grwpiau Ardal yr Aelodau a'r Cynlluniau Tref ac Ardal, glustnodi prosiectau â blaenoriaeth uchel neu rai dymunol y gallai elwa o gyllid CDG, ac adnabod ffynonellau arian cyfatebol ychwanegol i ariannu'r prosiectau hyn.

Roedd hi eisoes yn adnabyddus bod cymunedau o fewn Sir Ddinbych yn gymwys i elwa o ffynonellau arian eraill e.e. Cymunedau yn Gyntaf, arian cymunedol o brosiectau isadeiledd mawr/ynni gwynt. Gallai agwedd gydlynol tuag at gynllunio a darparu prosiectau arfaethedig wneud yn fawr o'r elw a ddaw ohonynt ar gyfer y cymunedau mewn cwestiwn, sicrhau

cynladwyedd hirdymor a chefnogi uchelgais y Cyngor i ddatblygu'r economi leol yn ogystal â chyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol. Dylid nodi hefyd na fyddai pob prosiect yn gydnaws â blaenoriaethau'r Cyngor;

- Nodi bod Cynllun 2014-2020 hefyd yn cynnwys gwelliannau arfaethedig o fewn yr AHNE;
- Byddai aelodau Archwilio o gynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn cael eu gwahodd i fynychu'r dathliad i nodi diwedd CDG 2007-2013.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

PENDERFYNWYD:

(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, nodi'r arferion da yr adnabuwyd wrth ddarparu rhaglen bresennol cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig yn Sir Ddinbych wledig ac i weithredu'r arferion hynny lle'n briodol yn ystod y cyfnod y rhaglen newydd; ac

(ii) y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2015 yn amlinellu'r cynlluniau cyllid allanol sydd ar gael i gymunedau lleol, fel rhan o gynlluniau/cyllidau llywodraeth Ewrop neu fel ad-dalu ar gyfer prosiectau isadeiledd mawr, a sut y gellir eu cydlynu orau ag arian llywodraeth leol er mwyn i gymunedau lleol wneud yn fawr o'r elw.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR AMDDIFFYN OEDOLION YN SIR DDINBYCH 1
EBRILL 2013 I'R 31 MAWRTH 2014**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yr Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014 (dosbarthwyd yn flaenorol).

Cynghorwyd y Cyngor bod cyflwyniad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud amddiffyn oedolion yn ofyniad statudol am y tro cyntaf. Byddai'r broses amddiffyn oedolion yn debyg i'r un sy'n cael ei dilyn mewn achos plant. Roedd proses newydd o ran adolygiadau achosion difrifol yn cael ei gweithredu, ond roedd y cyngor yn dal i aros am ganllawiau terfynol ynghylch gweithdrefnau oedolion.

Tynnwyd sylw at nifer cynyddol yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion yn y sir (tudalen 2) ac eglurwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn golygu cynydd yn nifer yr achosion ond ei fod o bosib yn ganlyniad o ymwybyddiaeth well o fodolaeth y broses atgyfeirio a sut i gael mynediad ati.

Clywodd y Pwyllgor bod nifer yr atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) a phroffil y dioddefwyr honedig yn Sir Ddinbych yn debyg ac oeddynt yn Sir y Fflint a Wrecsam ill dau (merched oedrannus gan amlaf). Yn genedlaethol roedd hyn yn golygu bod Sir Ddinbych ar ganol y gynghrair o ran ystadegau Llywodraeth Cymru.

Ynghylch cwynion, fe bwysleisiwyd nad oedd canlyniad 'amhendant' yn golygu na fyddai unrhyw weithredu'n digwydd. Fe eir i'r afael ag unrhyw fylchau posib neu

ddiffygion a adnabuwyd yn ystod y broses ymchwilio fel mater o drefn. Mae canlyniad ymchwiliad yn dilyn atgyfeiriad POVA yn seiliedig ar y tebygolrwydd bod trosedd wedi digwydd, gall hyn fod yn anodd iawn mewn achosion lle na fu unrhyw dystion, lle bod hi'n gair un yn erbyn y llall. Mi fyddai rhai achosion fodd bynnag lle byddai tystiolaeth feddygol yn effeithio'r tebygolrwydd y naill ffordd neu'r llall.

Proses oedd POVA y byddai asiantaethau amrywiol yn ei defnyddio er mwyn casglu tystiolaeth, gyda'r bwriad o benderfynu os ddigwyddodd unrhyw gamdriniaeth. Y penderfyniad cychwynnol fyddai: a yw'r unigolyn diamddiffyn mewn perygl niwed enbyd? Os oedd, byddai'n cael ei symud i le diogel cyn unrhyw ymchwiliad manwl i'r drosedd honedig.

Esboniwyd i'r Pwyllgor bod rhai sefyllfaoedd lle'r oedd ffigyrau'n dangos bod canran uchel o 'breswylwyr' wedi'u heffeithio neu fod canran uchel o staff wedi cyflawni trosedd honedig. Yn fwy aml na pheidio, roedd y rhain yn sefydliadau mawr lle bu cwyn dienw yn erbyn aelod staff dienw, ac felly'n golygu yr ystyrir bod y preswylwyr i gyd wedi'u heffeithio a'r staff i gyd yn droseddwyr honedig – roedd gan hyn y potensial i effeithio ar y ffigyrau. O ganlyniad, gofynnodd aelodau i droednodyn gael ei gynnwys at y perwyl hwn mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Roedd Dyfarniad gan y Goruchaf Lys ynghylch y prawf ar gyfer 'amddifadu o ryddid' at bwmpas Erthygl 5 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi arwain at gynydd sylweddol yn niferoedd y ceisiadau adolygu yn genedlaethol ac yn lleol. Roedd y broses asesu hir ar gyfer adolygiadau amddifadu o ryddid a'r gost oedd ynghlwm wrth bob adolygiad unigol wedi rhoi pwysau cynyddol ar staff a chyllideb yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Hyd yn hyn roedd 11 o aseswyr lles gorau wedi eu hyfforddi i gynyddu nifer y staff oedd ar gael i gyflawni gwaith yn ymwneud â'r adolygiadau hyn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigon o hyd i fynd i'r afael â'r cynydd amcangyfrifedig mewn ceisiadau adolygu. Adnabuwyd hefyd bod angen i gynyddu gallu staff 'Ardaloedd' i fynd i'r afael ag ymholiadau POVA, o ganlyniad byddai trafodaethau'n dechrau â hyfforddwr allanol yn gynnar yn y flwyddyn newydd i weld sut y gellid hwyluso hyn.

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw swyddi wedi'u colli fel rhan o'r broses pennu cyllideb ar gyfer 2015/16, a disgwyliwyd y byddai'r adolygiad gweinyddu cyfredol yn helpu cryfhau'r Gwasanaeth wrth fynd i'r afael â'r cynydd yn nifer yr atgyfeiriadau o flwyddyn i flwyddyn ac â'r gwaith ychwanegol yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ar y prawf Amddifadu o Ryddid.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

PENDERFYNWYD :

(i) yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad a chydnabod pwysigrwydd agwedd gorfforaethol tuag at Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed a chyfrifoldeb y Cyngor i drin hyn fel maes blaenoriaeth allweddol a'i osod ochr yn ochr â'r ymrwymiad a phwysigrwydd a roddir gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant; a

(ii) bod yr Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych ar gyfer y cyfnod Ebrill 2014 hyd Mawrth 2015 i'w gyflwyno i'r Cyngor ymhen deuddeg mis, a

bod yr adroddiad i gynnwys gwerthusiad o effaith Dyfarniad y Goruchaf Lys ynghylch Amddifadu o Ryddid o ran cyllideb ac adnoddau'r Gwasanaeth a'i waith.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio (CA) adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Partneriaethau ac amlygodd yr adroddiadau lle'r oedd angen penderfyniadau gan y grŵp.

Roedd yr eitemau ar gyfer 5 Chwefror 2015 yn cynnwys:

1. Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng
2. Cydlynu Cyllideb Cymunedau

PENDERFYNWYD *cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.*

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Bu'r Cynghorydd Richard Davies yn cynrychioli'r pwyllgor mewn her gwasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio diweddar. Teimlodd fod y Gwasanaeth wedi'i herio'n gryf a byddai'n dod ag adroddiad mwy manwl i'r cyfarfod nesaf.

9 PERFFORMIAD AC ADOLYGIAD Y GWASANAETH TREFTADAETH

Eitem Rhan II:

PENDERFYNWYD *yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.*

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Hamdden, Ieuencid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig a Phennaeth y Priffyrdd a'r Amgylchedd yr adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd yn flaenorol) a baratowyd gan ymgynghorwyr ar 'Ddyfodol Darparu Gwasanaethau Treftadaeth yn Sir Ddinbych'.

Clywodd y Pwyllgor bod nifer o newidiadau wedi'u gwneud ers 2010 o fewn y Gwasanaeth Treftadaeth, gan gynnwys adolygiadau o ddarpariaeth gwasanaethau, amseroedd agor atyniadau a ffyrdd o gynyddu gwariant ymwelwyr. Roedd hyn wedi lliniaru ymarferion gweithio a chefnogi cynydd o 15% mewn incwm yn ystod cyfnod

2010 – 2014, â chynnydd ychwanegol amcangyfrifedig o 2% i 3% wedi'i ragamcanu ar gyfer yr ychydig flynyddoedd i ddod.

Cyflawnwyd adolygiad gwasanaeth gan ymgynghorydd allanol a ddaeth i'r casgliad bod angen mwy o gydweithio'n lleol a rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth mwy modern, ymatebol ac arloesol. Roedd y casgliad yma'n cydymffurfio â chyddestun rhaglen "Rhyddid a Hyblygrwydd" yr Awdurdod, oedd yn hybu rhagor o weithio mewn partneriaethau.

Cafodd aelodau'r pwyllgor wybod bod darpariaeth gwasanaethau treftadaeth yn y dyfodol yn dibynnu nid yn unig ar weithio mewn partneriaeth, ond hefyd ar yr amodau cyfyngol amrywiol ynghylch lesddaliadau, cyfamodau a chytundebau ar lefel gwasanaeth – mewn perthynas nid yn unig â safleoedd yr atyniadau ond tir cyfagos dan berchnogaeth yr awdurdod.

Trafodwyd gan aelodau'r potensial o weithio ar sail ranbarthol ynghylch asedau treftadaeth gyda golwg ar gynyddu eu hyrwyddiad a'u gwelededd.

Awgrymodd aelodau y gall fod yn fuddiol defnyddio'r dulliau canlynol o hyrwyddo'r atyniadau:

- E-byst i'r cynghorwyr i gyd â rhestr o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn yr atyniadau;
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy aml wrth eu hyrwyddo;
- Cyflwyno un tocyn mynediad ar gyfer yr atyniadau, â disgownt posib wrth brynu mynediad i'r portffolio treftadaeth cyfan;
- Gweithio'n agosach ag atyniadau yn y sector gwirfoddol/annibynnol â golwg ar godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo atyniadau boed eu bod yn eiddo'r Cyngor neu beidio.

Yn dilyn y drafodaeth:

PENDERFYNWYD :

(i) yn amodol ar yr arsylwadau uchod, bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynydd sylweddol a wnaethpwyd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych ers 2011;

(ii) cefnogi'r amcan cyffredinol a amlinellwyd yn yr adolygiad gwasanaethau, sef y dylai'r gwasanaeth weithio tuag at lefelau partneriaeth uwch a chydweithio; a

(iii) cefnogi'r camau gweithredu sy'n cael eu dilyn ar hyn o bryd er mwyn cyrraedd yr amcan uchod, gan gynnwys y gwaith archwilio/datblygu cysyniad arfaethedig.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	19 Mawrth 2015
Aelodau Arweiniol:	Arweinydd ac Aelod Arweiniol Hamdden, Twristiaeth, Ieuencid a Datblygu Gwledig
Awdur yr Adroddiad:	Arweinydd Tîm Cyllid Allanol Arweinydd Tîm Datblygu Busnes ac Economi'r De
Teitl:	Cydlynu Cyllid Cymunedau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r sefyllfa gyfredol gyda'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) a chronfeydd eraill sydd ar gael ar gyfer buddion cymunedol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd yr adroddiad hwn yn egluro'r sefyllfa gyffredinol i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ac yn egluro argaeledd ffrydiau cyllid posibl (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd) ar gyfer budd cymunedol. Bydd hefyd yn manylu'r gefnogaeth sydd ar gael i grwpiau Cymunedol sy'n gwneud cais am gyllid sydd hefyd ar gael gan asiantaethau allanol a rhwydweithiau cefnogaeth.

Mae hwn yn ganllaw i brif ffrydiau'r UE a chronfeydd eraill fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau o'r mathau o gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd. (Sylwer nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr o'r holl ffrydiau cyllid sydd ar gael. Argymhellir bod y cymunedau yn ceisio cyngor pan fyddant yn ceisio cyllid er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â pha ffynonellau eraill a allai fod ar gael ar yr adeg honno).

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried yr wybodaeth ac yn darparu sylwadau ynglŷn â sut y gall y Cyngor weithio gyda chymunedau i nodi prosiectau a chodi ymwybyddiaeth o ffynonellau cyllid sydd ar gael i grwpiau cymunedol gyda'r diben o wneud y gorau o'r buddion ar gyfer y cymunedau hynny a chefnogi darpariaeth blaenoriaethau a chynllun corfforaethol y Cyngor.

4. Manylion yr Adroddiad

Isod ceir canllaw ynglŷn â'r prif ffynonellau cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd:

Cronfeydd yr UE

Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 : Mae Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer Cymru wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd yn awr. Dros gyfnod 2014-2020 bydd Cronfeydd yr UE yn dyrannu £1.6bn i 15 sir Gorllewin Cymru a'r Dyffrynnoedd, sy'n cynnwys Sir Ddinbych, bydd angen derbyn cyllid cyfatebol gan gronfeydd domestig (cyhoeddus, preifat a gwirfoddol).

Bydd swm yr arian cyfatebol yn amrywio yn ôl pob thema, a bydd yn amrywio rhwng

pob prosiect, ond mae'r cyfraddau grantiau lefel rhaglen a ganlyn yn cael eu darparu i roi syniad o lefelau grant a ragwelir.

Bydd y rhaglenni yng Nghymru yn canolbwyntio ar y nodau buddsoddi hyn:

1. Ymchwil ac Arloesi, (Cyfradd Grant 66%)
2. Cystadleurwydd Busnesau Bach a Chanolig, (Cyfradd Grant 62%)
3. Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd (Cyfradd Grant 69%)
4. Cysylltedd a Datblygu Trefol, (Cyfradd Grant 66%)
5. Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, (Cyfradd Grant 79%)
6. Sgiliau ar gyfer Twf (Cyfradd Grant 72%)
7. Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid (Cyfradd Grant 74%)

Datblygu Prosiectau'r UE: Bydd llai o lawer o brosiectau o dan y cylch hwn o gyllid, yn enwedig ar y lefel leol. **Bydd prosiectau yn fwy strategol o ran natur a byddant, yn y mwyafrif o achosion, ar lefel isranbarthol, rhanbarthol neu yn wir ar lefel genedlaethol.** Mae Timau UE Llywodraeth Leol yn cydlynu a hwyluso gwaith datblygu prosiectau ym mhob rhanbarth, gan weithio gyda'r holl bartneriaid a sectorau allweddol i nodi gweithrediadau a gweithgareddau i symud ymlaen gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) 2014-2020 : Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen CDG nesaf fydd yn parhau hyd 2020. Cyflwynodd Cadwyn Clwyd Ddatganiad Diddordeb i fod yn Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer Sir Ddinbych Wledig i ddarparu elfen 'LEADER' y CDG.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod fframwaith eang o opsiynau thematig ar gyfer y CDG nesaf fydd yn cynnwys:

1. Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
2. Hwyluso datblygiad rhag-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr.
3. Archwilio dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol.
4. Ynni adnewyddadwy ar lefel Gymunedol; a
5. Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

Hyd yn hyn nid yw CDG 2014-2020 wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd ac felly nid oes modd i Lywodraeth Cymru rhyddhau unrhyw gyllid i'r Grwpiau Gweithredu Lleol er mwyn i gymunedau ymgeisio amdanynt.

Cronfa Datblygu Cymuned Wledig : Bydd Cronfa Datblygu Cymuned Wledig yn cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cymru hefyd dan GDG Cymru 2014-2020. Bydd yn canolbwyntio ar Grwpiau Gweithredu Lleol a sefydliadau cymunedol eraill yng Nghymru i gefnogi prosiectau mewn sectorau blaenoriaeth gwledig allweddol. Bydd y cynllun yn cefnogi anghenion a bennir yn lleol fel rhan o fframwaith cenedlaethol i sicrhau bod yr un mathau o ymyraethau ar gael ledled Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru, yn amodol ar gytundeb gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, yn lansio Cronfa Datblygu Cymuned Wledig yng nghanol 2015 a bydd o leiaf dau gylch ymgeisio.

Nawdd arall

Cronfa Fferm Wynt RWE – Coedwig Clocaenog: Yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio ym mis Medi 2014, bu cyfarfodydd cychwynol rhwng Cyngor Sir Conwy a Sir Ddinbych,

cynrychiolwyr y gymuned leol a RWE. Bydd arian ar gael pan fydd y safle yn gwbl weithredol, a disgwylir y bydd hyn yn 2017. Bydd angen i RWE ymgynghori yn awr ynglŷn â sut y bydd arian Budd Cymunedol yn cael ei ddarparu a'r ardal o fudd.

Gwynt y Môr: Er y bu ychydig o oedi yn y broses, disgwylir i RWE ddyfarnu'r contract ar gyfer Gweinyddwr y Gronfa ym mis Mawrth 2015. Ar ôl penodi, bydd gwaith yn dechrau i gadarnhau Ardal o Fudd a meini prawf cymhwysedd prosiect.

Y Loteri FAWR – Trosglwyddo Ased Cymunedol: Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn lansio cylch arall o Raglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol 2 (CAT2), sef rhaglen sy'n buddsoddi hyd at £9miliwn i gefnogi trosglwyddo asedau cyhoeddus i berchnogaeth y gymuned. Bydd y fenter hon y mae mawr ei hangen yn helpu i feithrin gallu cymunedau mentrus ac yn cyfrannu at waith adfywio a chynaliadwyedd cymunedau ar draws Cymru. Rydym yn deall bod sesiynau briffio wedi eu cynllunio, a bydd dyddiadau ar gael i aelodau cyn gynted ag y bo modd.

Symiau Cymudol: Mae Swm Cymudol yn daliad gan ddatblygwyr i awdurdod lleol pan nad yw'n briodol i ddarparu'r man agored sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad. Mae'r cronfeydd yn cael eu dal yn benodol ar gyfer gwella manau agored a manau chwarae, ac yn cael eu defnyddio'n aml yn yr un dref neu'r cyngor cymuned y cafwyd y datblygiad. Mae cylchoedd cyllido'n cael eu hysbysebu gydag argaeledd cyllid mewn ardaloedd lle y derbyniwyd y taliadau.

Lle bo budd economaidd amlwg, byddai Datblygu Economaidd a Busnes yn arwain darpariaeth cefnogaeth i ddatblygu. Pan fo gweithgareddau yn canolbwyntio ar y gymuned, bydd CGGSDd / WCVA yn darparu cefnogaeth datblygu i'r ymgeiswyr.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd gan brosiectau llwyddiannus allbynnau penodol ynghlwm â'u cais fydd yn berthnasol i'r gweithgaredd a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rhaglen ariannu benodol.

Bydd y prosiectau yn ymdrin â'r meysydd canlynol yn bennaf:

Blaenoriaeth - datblygu'r economi leol: Cyfleoedd newydd am swyddi o ansawdd a'r sgiliau sydd eu hangen: i gael mynediad at y swyddi hyn; i leihau anweithgarwch economaidd lle bo'n ymarferol; i arallgyfeirio'r sylfaen economaidd leol; i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer busnesau.

Blaenoriaeth - strydoedd glân a thaclus: Mae gweithio'n uniongyrchol gyda'r Gymuned wrth fabwysiadu methodoleg LEADER yn galluogi ymgysylltu ar lawr gwlad ac yn blaenoriaethu anghenion y rhai hynny'n lleol.

Nod cyffredinol y prosiectau yw cefnogi datblygiad cymunedau cynaliadwy, gan helpu i greu amgylchedd lle mae ar bobl eisiau byw, gweithio a buddsoddi ynddi.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd angen i wasanaethau sy'n cyflwyno cais am gyllid yr UE ganfod ffynhonnell cyllid cyfatebol. Bydd hyn yn dibynnu ar faint a natur y prosiect sy'n cael ei ddatblygu.

Ar gyfer cyllid cymunedol, bydd disgwyl bod yr ymgeiswyr yn darparu cyllid cyfatebol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl y gronfa.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Gweler yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb ynghlwm.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ar gyfer rhaglenni'r UE, mae Tîm yr UE wedi cydlynu ymatebion CSDd i ymgynghoriadau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r CDG. Cyflwynwyd ymatebion ffurfiol y Cyngor i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2013. Cynhaliwyd digwyddiadau ym mis Mawrth 2013 gyda swyddogion, aelodau a Phartneriaeth CDG Sir Ddinbych i hysbysu'r ymatebion hyn. Cadarnhawyd yr ymatebion gan y Cabinet ym mis Ebrill 2013 cyn eu cyflwyno.

Ar gyfer cronfeydd eraill cynhelir ymgynghoriadau gan y corff ariannu'n uniongyrchol. Mae Datblygu Economaidd a Busnes wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau ymgynghori ar gyfer cronfeydd eraill.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn ganllaw i'r cyfleoedd cyllid.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

1. Cyllid cyfatebol – Mae'r gofyniad i ganfod ffynhonnell cyllid cyfatebol cymwys yn risg i'r ymgeiswyr, gan na fyddai modd parhau â'r prosiectau heb ei ganfod.
2. Newidiadau i Gefnogaeth Technegol yr UE ac Adolygiad ehangach EBD – Ar adeg yr ysgrifennu nid oes digon o wybodaeth i ddarparu sylwadau manwl, fodd bynnag mae'n debygol y bydd y newidiadau i wasanaethau cefnogi yn effeithio ar y canlynol:
 - i. Cefnogaeth Datblygu – Mae'n debyg y bydd gostyngiad mewn cynhwysedd ac felly bydd hyn yn cael effaith ar gefnogaeth datblygu a roddir i ymgeisydd sy'n ceisio canfod cyllid allanol.
 - ii. Cydymffurfio ac Archwilio – Bydd gostyngiad mewn cynhwysedd hefyd yn effeithio ar ddarpariaeth cefnogaeth cydymffurfio ac archwilio ar gyfer prosiectau ar ôl cymeradwyo. O ystyried y gofynion monitro a chadw ar gyfer cronfeydd yr UE yn benodol, mae hyn yn risg.
(Cyflwynwyd adroddiad ar 'Ailstrwythuro'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes', yn amlinellu ei rôl yn y dyfodol i ddatblygu'r economi leol a chefnogi darpariaeth y Cynllun Corfforaethol, i Bwyllgor Archwilio Cymunedau ar 12 Mawrth 2015. Bydd y ddolen gyswllt isod yn eich cyfeirio i'r adroddiad ar wefan y Cyngor:
<https://modern.gov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=271&MId=4917&LLL=0>)

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth y mae'n credu sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Mae Erthygl 6.3.2 (c) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall bwyllgorau archwilio ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu'r preswylwyr.

Swyddog Cyswllt: Arweinydd Tîm Cyllid Allanol : Datblygu Economaidd a Busnes
Ffôn: 01824 706781

Atodiad 1

Cyllid Cymunedol 19 Mawrth 2015

Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Cynlluniau Tref ac Ardal

Manylion Cyswllt: Sian Morgan Jones, Arweinydd Tîm Cyllid Allanol
Joanna Douglas, Arweinydd Tîm Datblygu Economaidd a Busnes (De)

Diweddarwyd: 19 Mawrth 2015

1. Pa fath o gynnig / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

Arall

2. Beth yw pwrpas y cynnig / penderfyniad, a pha newid (i'r staff neu'r gymuned) fydd yn digwydd o ganlyniad i'w weithredu?

Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaeth ac argaeledd ffynonellau cyllid posibl (yn amodol ar feini prawf cymhwyster) er budd cymunedol. Bydd yn manylu'r gefnogaeth sydd ar gael i grwpiau cymunedol sy'n gwneud cais am arian sydd hefyd ar gael trwy asiantaethau allanol a rhwydweithiau cefnogi.

3. A oes angen asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynnig / penderfyniad? Os nad ydyw, eglurwch pam. *Sylwer: os bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl (staff neu'r gymuned) yna bydd rhaidd cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb*

Oes

4. Darparwch grynodedb o'r camau a gymerwyd a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gynnal yr asesiad hwn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltiad a wnaed

(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth uchod am arweiniad)

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi arweiniad ar y prif ffynonellau arian UE ac arian arall sydd ar gael a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r pwyllgor archwilio partneriaeth o'r mathau o gyllid sydd ar gael ar hyn o bryd. (Sylwer nad yw'r adroddiad yn rhestr lawn o'r holl ffynonellau arian sydd ar gael. Argymhellir bod cymunedau'n ceisio cyngor pan fyddant yn gwneud cais am arian i weld pa ffynonellau ychwanegol sydd ar gael ar y pryd.

5. A fydd y cynnig / penderfyniad yn cael effaith bositif ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir (oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a thueddfryd rhywiol)?

(Cyfeiriwch at adran 1 yn y pecyn cymorth am ddisgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig)

Mae'r adroddiad ei hun yn ganllaw ar gyfer prif ffynonellau cyllid UE a chyllid arall ac felly ni chaiff effaith ar y nodweddion gwarchoddedig. Dylai'r prosiectau a'r gweithgareddau sy'n cael eu hariannu trwy arian UE ac arian arall gael effaith positif ar rai o'r nodweddion gwarchoddedig. Wrth i'r prosiectau a'r mentrau hyn ddatblygu bydd angen cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan berchennog y prosiect ar yr adeg priodol a bydd hwn yn rhoi asesiad mwy manwl o effaith ar nodweddion gwarchoddedig. Mae adfywio lleol yn rhoi grym i gymunedau lleol a bydd mynediad cyfartal yn ganolog i ddarparu unrhyw raglenni presennol a rhai'r dyfodol.

6. A fydd y cynnig / penderfyniad hwn yn cael effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelir (oed; anabledd; ail aseinio rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a thueddfryd rhywiol)?

Mae'r adroddiad yn ganllaw ar gyfer prif ffynonellau cyllid UE a chyllid arall. Mae'r prosiect a'r gweithgareddau sy'n cael eu cyllido trwy arian UE ac arian arall yn ychwanegol at ddarpariaeth bresennol ac ar sail hyn ni chaiff unrhyw effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig. Wrth i'r prosiectau a'r mentrau hyn ddatblygu bydd angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb penodol gan berchennog y prosiect ar yr adeg priodol a bydd hwn yn darparu asesiad mwy manwl o effaith ar nodweddion gwarchoddedig. Mae adfywio lleol yn rhoi grym i gymunedau lleol a mynediad cyfartal yn ganolog i ddarparu rhaglenni presennol a rhai yn y dyfodol.

7. A yw'r cynnig / penderfyniad wedi'i ddiwygio i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl? Os nad ydyw, eglurwch pam.

Na

8. A ydych wedi nodi unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol bosibl ac / neu eu monitro?

Do

Bydd angen Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol sy'n cael eu hariannu trwy'r UE neu gronfeydd eraill gan berchennog y prosiect ar yr adeg priodol i roi dealltwriaeth fwy manwl o, a chamau i ddelio gydag unrhyw effaith negyddol ar nodweddion gwarchoddedig.

Cam(au) Gweithredu	Swyddog	Erbyn pryd?
	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Please describe>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>
<Unrestrict editing to insert additional rows>	<Enter Name>	<DD.MM.YY>

9. Datganiad

